Estyn

Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Canolfan Cymraeg i Oedolion Morgannwg
# Prifysgol Morgannwg
# Trefforest
# Pontypridd
# RCT
# CF37 1DL

**Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2013**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**
**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**
**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y darparwr a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad yn unol ag Adran 77 Deddf Dysgu a Sgiliau 2000.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**© Hawlfraint y Goron 2013: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 12/06/2013**

## Cyd-destun

Sefydlwyd Canolfan Cymraeg i Oedolion Morgannwg ar 1 Ebrill 2006 yn un o chwe chanolfan ranbarthol a ddynodwyd gan Lywodraeth Cymru i arwain y maes. Daeth y ganolfan yn weithredol ar 1 Awst 2007.

Mae'r ganolfan yn gyfrifol yn uniongyrchol am y ddarpariaeth Cymraeg i Oedolion yn ardal Rhondda Cynon Taf a Merthyr Tudful. Yn ardal Pen-y-bont ar Ogwr darperir y cyrsiau gan Brifysgol Morgannwg a Choleg Pen-y-bont trwy gytundeb trydydd parti swyddogol.

Yn ôl cyfrifiad 2011, mae gan y rhanbarth boblogaeth o 432,400. Mae nifer siaradwyr Cymraeg yr ardal yn amrywio o 12.0% ym Merthyr Tudful, i 9.5% ym Mhen-y-bont ar Ogwr a 8.6% yn Rhondda Cynon Taf.

Y mae'r ganolfan yn rhan o'r Gyfadran Busnes a Chymdeithas o fewn Prifysgol Morgannwg. Yn sgil twf gweithgarwch Cymraeg i oedolion yn dilyn ailstrwythuro yn 2006, y mae'r ganolfan yn gweithredu i raddau helaeth fel uned annibynnol, ond, ar yr un pryd yn cydymffurfio â gweithdrefnau a phrosesau sicrhau ansawdd y gyfadran a'r Brifysgol.

Yn 2012-2013, roedd 1,697 o ddysgwyr wedi ymrestru ar gyrsiau'r ganolfan.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol y darparwr** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r darparwr** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad cyfredol Canolfan Cymraeg i Oedolion Morgannwg yn dda oherwydd bod:

- bron pob un o'r dysgwyr yn frwdfrydig ac yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu;
- safon y gofal, cymorth ac arweiniad yn uchel;
- yr addysgu'n effeithiol ac yn cynnwys llawer o gryfderau;
- darpariaeth gydlynus ar draws y rhanbarth; a bod
- ystod gyfoethog o brofiadau dysgu ar gael i ddysgwyr y tu allan i'r dosbarth.

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella Canolfan Cymraeg i oedolion Morgannwg yn dda oherwydd:

- arweinyddiaeth flaengar y pennaeth a chefnogaeth yr uwch dîm rheoli;
- tiwtoriaid brwdfrydig sy'n cyfleu disgwyliadau uchel ac yn hyrwyddo ethos cynhaliol a chefnogol;
- mentrau addysgu a dysgu blaengar sy'n cael effaith gadarnhaol ar ddysgu a safonau dysgwyr;
- diwylliant cryf o gydweithio ar bob lefel i sicrhau darpariaeth o ansawdd uchel;
- lefel uchel o ymddiriedaeth a chydweithrediad gyda'i phartneriaid;
- nodau strategol clir; a
- threfniadau effeithiol ar gyfer gwella ansawdd.

## Argymhellion

A1 Parhau i wella agweddau ar addysgu ac asesu ar gyfer dysgu

A2 Gosod targedau personol mwy penodol i ddysgwyr sy'n dangos yn glir y camau nesaf i'w helpu i wneud cynnydd pellach

A3 Sicrhau bod mwy o ddysgwyr yn manteisio ar y cyfleoedd i ddilyn cyrsiau cyfrwng Cymraeg yn y gymuned a'r brifysgol

### Beth sy'n digwydd nesaf?

Mae safonau, addysgu ac arweinyddiaeth y ganolfan yn dda. Bydd y ganolfan yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Bron yn ddieithriad, mae pob un o'r dysgwyr yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu yn y gwersi. Maent oll yn eiddgar i gyfrannu ymhob agwedd o'r gwersi. Maent yn gwrando'n astud ac yn ymateb yn gadarnhaol i'r holl weithgareddau. Maent yn cydweithio'n dda mewn gweithgareddau pâr a grŵp ac yn cynnal dysgu ei gilydd yn effeithiol.

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn datblygu eu medrau cyfathrebu Cymraeg yn effeithiol yn y gwersi. Maent yn dwyn i gof ystod dda o ffurfiau a geirfa a ddysgwyd yn flaenorol, gyda'r goreuon yn medru addasu'r wybodaeth hon i sefyllfaoedd newydd yn llwyddiannus. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn siarad yn gynyddol hyderus ac yn ynganu'n gywir yn ôl lefel y dosbarth. Ar y lefelau uwch, ar y cyfan yn gwneud cynnydd clir yn eu gallu i siarad yn estynedig ac yn ddigymell. Mae ganddynt ystod helaeth o eirfa a defnyddiant gystrawen yr iaith yn gywir. Mewn cyrsiau penodol i athrawon cynradd ac uwchradd yn y gweithle maent yn defnyddio'r iaith i safonau uchel iawn.

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn datblygu eu medrau darllen yn dda. Maent yn deall cynnwys y testun yn dda ac yn darllen yn gynyddol gywir yn ôl lefel y dosbarth. Mae eu medrau ymchwilio yn datblygu'n dda.

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn ysgrifennu'n gynyddol gywir yn ôl lefel y dosbarth. Ar lefelau Mynediad a Sylfaen maent yn ysgrifennu'n syml ac yn gywir. Ar y lefelau uwch, mae'r goreuon yn ysgrifennu mewn ystod dda o ffurfiau, gan gynnwys darnau ffeithiol a chreadigol, yn estynedig ac yn gywir.

Mae medrau dysgu annibynnol y mwyafrif o ddysgwyr yn dda iawn. Mae nifer fawr o ddysgwyr yn mynychu ystod eang o gyfleoedd dysgu anffurfiol y tu hwnt i'r dosbarthiadau i atgyfnerthu eu medrau cyfathrebu. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr y ganolfan yn elwa o ystod helaeth o gyfleoedd i ddysgu am y diwylliant Cymreig yn ystod eu gwersi a thrwy'r Rhaglen Dysgu Anffurfiol sy'n eu cyflwyno i'r diwylliant Cymraeg, er enghraifft Eisteddfod y Dysgwyr, Cymanfa Ganu, Cinio Gŵyl Dewi ac ymweliadau â'r theatr i weld perfformiadau yn y Gymraeg.

Mae dysgwyr y rhaglen sabothol yn gwneud cynnydd rhagorol yn eu gallu i ddefnyddio medrau rhifedd trwy gyfrwng y Gymraeg. Maent yn defnyddio'u medrau a thermau rhifedd Cymraeg wrth gynnig gwersi rhifedd enghreifftiol i'w cyd ddysgwyr yn y dosbarth.

Mae patrwm ymrestriadau'r ganolfan yn amrywio dros y pedair blynedd ddiwethaf. Ar lefel Mynediad, mae nifer y dysgwyr wedi gostwng dros y blynyddoedd diwethaf er bod cynnydd yn y niferoedd yn 2012-2013. Patrwm ymrestriadau anwastad sydd ar gyrsiau Sylfaen. Yn gyffredinol, gwelir twf mewn ymrestriadau ar gyrsiau Canolradd, Uwch a Hyfedredd. Mae cyfraddau cwblhau dros y pedair blynedd ddiwethaf yn dangos cynnydd parhaus ar bob un o'r prif lefelau ac ar draws pob un o gyrsiau'r ganolfan. Ar y cyfan, mae cyflawniadau ymgeiswyr arholiadau canolfan Morgannwg yn debyg i ffigyrau Cymru ar bob lefel.

## Lles: Rhagorol

Mae’r dysgwyr ar bob lefel yn mwynhau’r dysgu ac yn frwdfrydig iawn, gan neilltuo amser sylweddol i atgyfnerthu eu dysgu tu hwnt i’r dosbarthiadau. Maent oll yn barod i weithio’n galed, yn cydweithio’n dda â’i gilydd ymhob agwedd o’r gwaith dosbarth ac yn cyfranogi’n dda. Maent yn dangos parch ac yn fodlon helpu ei gilydd yn y dosbarth. Maent oll yn teimlo’n ddiogel yn eu hamgylchedd dysgu.

Mae'r rhan fwyaf yn dangos lefelau uchel o gymhelliant ac yn cymryd cyfrifoldeb am eu dysgu gan ymdrechu i fynychu cyrsiau ychwanegol a gweithgareddau allgyrsiol fel Sadyrnau Siarad, sesiynau adolygu, eisteddfodau a digwyddiadau cymdeithasol er mwyn ymestyn eu cyswllt â’r iaith. Mae hon yn nodwedd ragorol wrth ystyried natur ieithyddol yr ardal a’r diffyg cyfleoedd sydd ar gael i sgwrs yn Gymraeg.

Ar y cyfan mae lefelau presenoldeb dysgwyr yn dda. Pan fyddant yn colli gwersi maent yn manteisio ar yr ystod helaeth o gyfleoedd i ddal i fyny â’r hyn maent wedi’i golli trwy systemau cymorth y ganolfan. Mae rhan fwyaf y dysgwyr yn cwblhau eu cyrsiau’n llwyddiannus, gyda llawer yn gwneud defnydd da iawn o’r cynllun dysgu unigol “Taith Iaith” i sicrhau bod defnyddio’r Gymraeg y tu allan i’r dosbarth yn flaenoriaeth yn eu dysgu.

Mae’r rhan fwyaf o ddysgwyr yn gwylio rhaglenni teledu a gwrando ar raglenni radio, gan gynnwys rhaglenni radio arbennig ar gyfer dysgwyr a ddarperir gan y ganolfan ar yr orsaf radio leol. Maent yn gwneud defnydd effeithiol o’r we i ategu eu dysgu. Er enghraifft, defnyddiant rwydweithiau cymdeithasol i gyfathrebu gyda’i gilydd a’r tiwtor y tu hwnt i’r dosbarthiadau. Mae ychydig o ddysgwyr yn cyfathrebu’n rhyngweithiol trwy’r we i ymarfer ac i adolygu eu medrau llafar. Mae’r defnydd blaengar hyn o dechnoleg yn helpu dysgwyr i deimlo’n rhan o gymuned glos sy’n gweithio’n dda gyda’i gilydd i ddysgu’r Gymraeg. Mae hon yn nodwedd ragorol.

Mae llawer o ddysgwyr yn cymryd rhan yn y broses gynllunio trwy fynychu grwpiau ffocws lle gallant roi eu barn ar eu dysgu a dylanwadu’n bositif ar benderfyniadau’r ganolfan.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw’r ddarpariaeth? | Da |
|---|---|

## Profiadau dysgu: Rhagorol

Mae cwricwlwm y ganolfan yn eang iawn ac yn cynnwys amrywiaeth ardderchog o gyfleoedd dysgu ffurfiol ac anffurfiol.

Mae'r ganolfan wedi sicrhau bod ystod eang o gyrsiau Cymraeg i oedolion ar gael ar bob lefel ac ym mhob ardal ar draws y rhanbarth. Gall dysgwyr ddilyn cyrsiau ar bob lefel yn lleol heb orfod teithio i ardaloedd eraill. Mae dysgwyr ar bob lefel yn medru gweithio tuag at arholiadau neu gymwysterau priodol yn ôl eu dymuniad.

Mae’r ganolfan yn trefnu ystod o gyrsiau priodol i ateb anghenion penodol y dysgwyr. Mae gan y ganolfan gyrsiau bloc dwys a chwrs dwys ar bob lefel, sy’n galluogi dysgwyr i ddod yn rhugl yn gyflym. Mae cwrs ‘Cymraeg i'r Teulu’ yn cyflwyno medrau llythrennedd a rhifedd trwy gyfrwng y Gymraeg i rieni yn effeithiol.

Mae'r ganolfan yn gweithio'n dda iawn gydag ystod o sefydliadau yn y sector cyhoeddus i helpu eu gweithwyr i wella eu medrau Cymraeg. Mae'r ganolfan yn teilwra'r cyrsiau hyn i gwrdd ag anghenion penodol sefydliadau unigol yn effeithiol. Er enghraifft, yn y sector iechyd mae'r ganolfan wedi cyhoeddi llyfr poced o frawddegau a thermau ar gyfer nyrsys a staff gofal. Trefna'r ganolfan gyrsiau i adrannau gwahanol cyngor lleol i alluogi staff i ddarparu gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg.

Blaenoriaeth ddiweddar lwyddiannus y ganolfan yw cynnig cyrsiau Cymraeg i staff ysgolion. Mae'r ganolfan yn cynnal cyrsiau sabothol i athrawon a chyrsiau gloywi iaith ar gyfer athrawon uwchradd. Mae'r ganolfan hefyd yn trefnu cyrsiau penodol ar gyfer cynorthwywyr cymorth dysgu a chynorthwywyr amser cinio. O ganlyniad, mae gweithwyr yn y sector addysg yn gwella eu medrau iaith a'u dealltwriaeth o'r Cwricwlwm Cymreig. Mae gwaith hwn yn arwain y sector.

Mae'r ganolfan yn trefnu ystod eang o weithgareddau allgyrsiol a digwyddiadau ar draws y rhanbarth i helpu dysgwyr ddefnyddio'r Gymraeg tu hwnt i'r dosbarth. O ganlyniad, gall dysgwyr ar draws yr ardal ymarfer eu medrau gwrando yn ogystal ag ehangu eu profiad o'r iaith Gymraeg a'i diwylliant.

Mae'r ganolfan yn gwneud defnydd rhagorol o rwydweithiau cyfryngau cymdeithasol a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu i ddarparu ystod o gyfryngau gwahanol ar gyfer dysgwyr i ymarfer eu medrau iaith. Yn y modd hwn, gall tiwtoriaid gyfathrebu â dysgwyr, a dysgwyr gyfathrebu gyda'i gilydd yn rheolaidd er mwyn ymarfer eu medrau llafar, darllen ac ysgrifennu.

Mae'r ganolfan yn cynnig cymorth rhagorol i bartneriaethau dysgu oedolion a'r mentrau iaith lleol i sefydlu canolfannau iaith ym Merthyr Tudful a Phentre'r Eglwys. Mae'r gweithgareddau a drefnir yn y canolfannau hyn yn helpu dysgwyr i ddatblygu eu medrau llafar a llythrennedd yn ogystal â'u hyder wrth ddefnyddio'r iaith Gymraeg.

**Addysgu: Da**

Mae'r rhan fwyaf o'r sesiynau addysgu yn effeithiol ac mae ychydig iawn o sesiynau yn rhagorol. Mae bron i bob tiwtor yn cynllunio'u gwersi yn fanwl gan ddefnyddio amrywiaeth eang o weithgareddau ac adnoddau pwrpasol i atgyfnerthu'r dysgu. Maent oll yn adnabod eu dysgwyr yn dda iawn ac yn cynllunio yn bwrpasol ar eu cyfer, gan osod her briodol i bob dysgwr. Mewn lleiafrif o wersi nid oes digon o ymyrraeth gan diwtoriaid i atgyfnerthu a chadarnhau'r gafael y dysgwyr ar eirfa a chystrawennau newydd.

Mae gan bron i bob tiwtor wybodaeth bynciol gyfoes dda. Mae'r tiwtoriaid yn defnyddio cwestiynau yn dda i atgyfnerthu'r dysgu. Mae cyflymder y gwersi yn dda ac yn addas at lefel y cyrsiau. Mae'r rhan fwyaf o diwtoriaid yn cynnig adborth llafar da ac, ar y cyfan, maent yn asesu cynnydd dysgwyr yn rheolaidd. Mae tiwtoriaid yn defnyddio 'Taith Iaith' i gytuno ar dargedau gyda'r dysgwr unigol. Fodd bynnag, nid yw tiwtoriaid yn defnyddio'r adnodd hwn yn gyson ar draws y ddarpariaeth er mwyn gosod targedau personol penodol a heriol i ddysgwyr.

Mae mwyafrif o'r tiwtoriaid yn gwneud defnydd da o dechnoleg, er enghraifft wrth chwarae clipiau o raglenni radio a theledu, pan fo'r amodau a lleoliad y dosbarthiadau yn caniatáu eu defnyddio.

Mae'r ganolfan wedi arbrofi gyda chynllun marcio newydd. Mae tiwtoriaid sy'n cymryd rhan yn y cynllun yn marcio'r gwaith ysgrifenedig dysgwyr yn fanwl ac yn gosod targedau penodol i ddysgwyr i wella'u gwaith. Rhannwyd yr arfer llwyddiannus hwn gyda thiwtoriaid y ganolfan mewn sesiwn hyfforddi, a hefyd gyda'r grŵp tasg a gorffen cenedlaethol. Mae'r dull marcio hwn wedi'i fabwysiadu eisoes gan un ganolfan arall. Serch hynny, nid yw'r arfer wedi cael digon o amser i sefydlu ar draws y ddarpariaeth.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ganolfan yn ystyried llais y dysgwr yn gyson wrth drefnu lleoliadau ar gyfer dosbarthiadau. Mae'r ganolfan yn rhoi amlinelliad clir o'r drefn gwyno i ddysgwyr ac maent yn ei deall.

Cynigia'r ganolfan gymorth priodol i rieni ifanc drwy ddarparu meithrinfa ar ddau leoliad. Mae'r ganolfan yn rhoi blaenoriaeth i rieni sydd angen cymorth tuag at gostau gofal plant drwy ei chronfa ariannol wrth gefn.

Mae'r ganolfan yn cwblhau asesiad risg ar bob lleoliad a chofnodir pob sefyllfa sy'n peri gofid i ddysgwyr a thiwtoriaid yn briodol, gan weithredu arnynt yn ôl y galw. Mae'r ganolfan yn gweithredu yn effeithiol ar unrhyw bryderon sydd gan diwtoriaid.

Mae'r wybodaeth a'r cyngor a roddir i ddysgwyr am gyrsiau gan y ganolfan drwy gyfrwng llinell ffôn yn briodol. Ceir hefyd wybodaeth gyfredol ddefnyddiol ar y wefan.

Mae gan y ganolfan weithdrefnau a pholisi priodol ar gyfer diogelu ac nid ydynt yn destun pryder. Mae'r ganolfan yn rhoi hyfforddiant penodol i staff a thiwtoriaid ar ddiogelu ac yn cysylltu â rhiant unrhyw berson ifanc rhwng 16 a 18 i geisio caniatâd iddo/iddi fynychu'r cwrs.

Mae cyfle i bob dysgwr nodi ei anghenion dysgu ychwanegol ar y ffurflen ymrestru a chysylltir â phob dysgwr sydd wedi nodi anghenion drwy e-bost. Gwneir pob ymdrech i ddiwallu'r anghenion hynny. Mae dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol yn derbyn y cymorth angenrheidiol i sefyll arholiadau.

Mae'r ganolfan yn gweithio'n llwyddiannus gyda'r Asiantaeth Sgiliau Sylfaenol a'r bartneriaeth dysgu oedolion yn y gymuned i sicrhau bod gweithdrefnau asesu a chymorth priodol yn eu lle.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r ganolfan yn darparu amgylchedd dysgu cynhwysol lle mae tiwtoriaid yn rhoi sylw da i gydraddoldeb ac amrywiaeth. Bron yn ddieithriad, mae pob tiwtor yn creu ethos croesawgar a chyfeillgar yn y dosbarthiadau. Mae pob dysgwr yn cael ei drin yn gyfartal ac mewn modd cynhwysol.

Cynhelir y rhan fwyaf o'r gweithgareddau dysgu mewn lleoliadau sy'n gyfleus i ddysgwyr ar draws y rhanbarth. Mae pob ystafell ddysgu yn addas, at y pwrpas ac yn ddigon o faint.

At ei gilydd mae safon yr adnoddau addysgu a dysgu o ansawdd uchel. Mae'r rhan fwyaf o diwtoriaid yn defnyddio ystod helaeth o adnoddau i hybu'r dysgu. Gwnânt

ddefnydd pwrpasol o fyrddau gwyn rhyngweithiol sydd ar gael mewn ystafelloedd yn y canolfannau cymunedol, y coleg a'r brifysgol. Mewn lleoliadau eraill yn aml mae tiwtoriaid yn aml yn cario offer technoleg gwybodaeth i'r dosbarthiadau er mwyn sicrhau bod dysgwyr yn cael cyfleoedd i weld ac i ddefnyddio deunyddiau dysgu mwyaf diweddar. Serch hynny, mewn ychydig o ddosbarthiadau nid oes adnoddau technoleg gwybodaeth ar gael.

Mae ethos Gymreig yn llawer o'r dosbarthiadau a'r adeiladau. Gwelir ystod eang o arddangosfeydd sy'n hybu'r Gymraeg, dwyieithrwydd ac ymwybyddiaeth o ddiwylliant a hanes Cymru.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |

**Arweinyddiaeth: Da**

Dan arweiniad blaengar y pennaeth, mae cyfeiriad strategol clir i waith y ganolfan, gyda ffocws cryf ar wella ansawdd y ddarpariaeth a chyflawniadau dysgwyr. Mae'r cynllunio strategol i gynyddu ymrestriadau ymhlith grwpiau penodol yn gryfder arwyddocaol. Mae gwella ansawdd yr addysgu yn flaenoriaeth uchel. Yn sgil hyn, mae tiwtoriaid yn derbyn arweiniad helaeth ar agweddau ar fethodoleg addysgu.

Mae dadansoddiadau o ddata perfformiad a'r rhaglen arsylwi dosbarthiadau yn arwain at bennu blaenoriaethau clir ar gyfer gwella. Un o gryfderau'r arweinyddiaeth yw sustemau cyfathrebu clir â'i holl randdeiliaid, yn cynnwys y tîm o diwtoriaid rhan-amser. Mae cyfrifoldebau ar gyfer arwain agweddau ar y ddarpariaeth wedi eu rhannu'n briodol rhwng aelodau'r staff canolog.

Gwna'r ganolfan ddefnydd effeithiol o ystod eang o ddadansoddiadau data i fesur ei pherfformiad ac ansawdd y ddarpariaeth. Enghraifft o hyn yw'r modd y mae'r ganolfan wedi cynyddu oriau cyswllt dosbarth lle mae dysgwyr yn talu ffi ostyngol er mwyn gwella cyfraddau cwblhau. Mae'r ganolfan yn dadansoddi cyfraddau dilyniant rhwng lefelau yn fanwl, ac mae'r gwaith i hyrwyddo mwy o ddysgwyr i barhau i ddysgu ar y lefel nesaf yn flaengar.

Mae cynllun strategol y ganolfan yn cynnwys amcanion clir ac yn gwneud defnydd o dargedau meintiol priodol. Caiff cynnydd yn erbyn yr amcanion ei adolygu'n fanwl ac yn rheolaidd, ac mae bron y cyfan o'r amcanion yn cael eu cyflawni oddi mewn i'r terfynau amser a ddynodwyd. Nid yw amcanion y cynllun strategol wedi eu hymgorffori yn y cynllun ansawdd blynyddol.

Mae cyswllt rheolaidd rhwng y ganolfan a chyfadran fusnes a chymdeithas y brifysgol y mae'n rhan ohoni. Mae panel cyn-graffu'r gyfadran yn archwilio dogfennau strategol y ganolfan yn drylwyr ac yn darparu adborth manwl i'r ganolfan ar faterion yn ymwneud ag eglurder a fformat y dogfennau. Nid yw'r gyfadran yn darparu digon o her i'r ganolfan ar faterion yn ymwneud ag ansawdd y ddarpariaeth a safonau. Mae'r modd y mae'r ganolfan yn cydweithio ar lefel strategol gyda Choleg Pen-y-bont yn gryfder.

Mae sylw i flaenoriaethau cenedlaethol ym maes Cymraeg i oedolion yn rhan greiddiol o waith y ganolfan. Mae'n flaengar yn y modd y mae'n gweithio gydag

ysgolion lleol, yn hyrwyddo dilyniant rhwng lefelau ar y cyrsiau yn y gymuned, a chael mwy o ddysgwyr i ddilyn cyrsiau dwys. Mae'r ganolfan yn arwain ar lefel genedlaethol ym maes 'Cymraeg yn y teulu'.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae gan y ganolfan systemau cadarn ar gyfer monitro a gwella safonau, gyda hunan arfarnu treiddgar wrth wraidd holl drefniadau'r ganolfan ar gyfer nodi a gwella perfformiad. Mae gan diwtoriaid ddealltwriaeth dda o'u cryfderau a'u gwendidau.

Lluniodd y ganolfan Strategaeth Cynnwys y Dysgwyr i sicrhau fod llais y dysgwyr yn ganolog i bolisïau ar gyfer gwella profiadau a deilliannau'r dysgwyr. Gwneir defnydd helaeth o holiaduron a chyfarfodydd staff a dysgwyr i gasglu barnau safbwyntiau'r dysgwyr. Mae'r rheolwyr yn gweithredu'n strategol ar sail safbwyntiau'r dysgwyr i godi safonau ac i wella profiadau'r dysgwyr.

Mae trefniadau arsylwi tiwtoriaid y ganolfan yn gadarn ac mae pob tiwtor yn cael ei arsylwi'n flynyddol a thiwtoriaid newydd yn fwy aml. Mae'r adroddiadau arsylwi yn fanwl ac yn ffocysu'n glir ar gryfderau a'r gwendidau yn yr addysgu. Mae'r pwyllgor arsylwi yn cyfarfod yn rheolaidd i safoni'r arsylwadau a sicrhau cysondeb. Dadansodda'r ganolfan y ffurflenni arsylwi'n feintiol ac yn ansoddol i ddarganfod cryfderau a mannau i wellau yn yr addysgu. Defnyddir y canlyniadau i lywio'r cynllun hyfforddiant mewn swydd.

Mae arweinwyr y ganolfan yn casglu, dadansoddi ac yn defnyddio data perfformiad yn effeithiol. Cesglir data ar ddeilliannau, ymrestriadau a phresenoldeb grwpiau arbennig gan nodi tueddiadau a nodi tanberfformiad. Defnyddir y wybodaeth hon yn effeithiol i flaenoriaethu hyfforddiant yn y dyfodol.

Mae arweinwyr yn dadansoddi canlyniadau arholiadau yn ofalus a threfnu hyfforddiant i diwtoriaid lle mae angen gwella. Defnyddir data canlyniadau arholiadau yn effeithiol i bennu targedau priodol er mwyn gwella safonau.

Mae'r canfyddiadau yn adroddiad hunan asesu'r ganolfan yn cyd fynd yn glir a barnau'r tîm arolygu, ond am y ddwy farn lle mae barnau Estyn yn uwch na barn y ganolfan. Caiff y cylchoedd gwella ansawdd eu hintegreiddio'n dda gyda chylchoedd cynllunio strategol y ganolfan. Defnyddir y wybodaeth o'r cylch ansawdd yn dda i flaenoriaethu gweithgareddau a hyfforddiant. Mae gweithgareddau priodol yn y cynllun datblygu ansawdd, a graddfeydd amser penodol a thargedau realistig ar gyfer mesur gwelliant.

Mae staff y ganolfan yn ymgysylltu'n dda mewn ystod eang o gymunedau dysgu yn y brifysgol a'r tu hwnt.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae'r ganolfan yn cydweithio'n effeithiol iawn gyda'r unig bartner trydydd parti sydd ganddi. Mae tiwtoriaid y bartneriaeth hon yn elwa o gael hyfforddiant ar y cyd gyda thiwtoriaid y ganolfan ac mae trefniadau asesu ansawdd cyson ar waith ar draws y ddarpariaeth.

Mae gan y ganolfan bartneriaeth gadarn iawn gyda nifer o sefydliadau a mudiadau bartneriaid allweddol yn yr ardal. Er enghraifft, mae'r bartneriaeth gyda'r sector addysg statudol a'r Mudiad Meithrin yn effeithiol yn y modd y mae'n gwella safonau iaith athrawon, cynorthwywyr dosbarth ac arweinyddion cylchoedd meithrin.

Mae'r ganolfan yn rhoi cymorth gwerthfawr i rai o brif gyflogwyr yr ardal yn y sector cyhoeddus. Fodd bynnag, nid yw'r bartneriaeth gyda chwmnïau yn y sector preifat a chyrff adfywio cymunedol wedi ei datblygu'n llawn.

Er bod y ganolfan yn rhan o bartneriaethau Dysgu Oedolion yn y Gymuned yr ardal, ychydig o ddysgwyr yn unig sy'n symud ymlaen i ddilyn cyrsiau cymunedol drwy gyfrwng y Gymraeg, lle bo modd.

Mae'r mudiadau iaith a'r ganolfan yn cydweithio'n agos iawn i ddarparu nifer fawr o gyfleoedd anffurfiol i ddysgwyr ddefnyddio'r Gymraeg. Mae'r ganolfan yn cynnig cefnogaeth ymarferol dda i orsaf radio leol sy'n darlledu rhaglen i ddysgwyr. Mae darnau o'r rhaglen yn cael eu defnyddio'n effeithiol iawn fel adnoddau dysgu ar ffurf podlediadau. Mae hwn yn arfer blaengar sy'n codi ymwybyddiaeth y cyhoedd o faes Cymraeg i oedolion ar y cyfryngau poblogaidd.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae'r ganolfan yn gwneud defnydd priodol o arbenigeddau'r tîm canolog ar gyfer arwain agweddau penodol ar y ddarpariaeth. Er mwyn sicrhau sefydlogrwydd staffio ymhlith tiwtoriaid rhan-amser, mae'r ganolfan yn cynnig cytundebau ffracsiynol iddynt.

Mae'r ganolfan yn darparu rhaglen helaeth o hyfforddiant ar gyfer staff. Ceir cyswllt cryf rhwng sesiynau hyfforddiant a'r rhaglen arsylwi. Mae'r modd y mae'r ganolfan yn olrhain effaith yr hyfforddiant a gynigir yn gryfder.

Mae trefniadau priodol ar gyfer rheoli perfformiad pennaeth y ganolfan gan ddeon cyswllt y Brifysgol. Mae pennaeth y ganolfan yn cynnal cyfarfodydd blynyddol i reoli perfformiad staff amser llawn, gyda hyn yn arwain at bennu amcanion datblygu. Mae gan y tîm canolog wybodaeth fanwl am ansawdd gwaith y tiwtoriaid rhan amser, ac mae'n yn mynd i'r afael â thanberfformiad yn effeithiol.

Mae datblygu platfform 'Y Bont' yn fenter flaengar sy'n gwneud cyfraniad sylweddol o ran darparu'r adnoddau dysgu diweddaraf ar gyfer tiwtoriaid a dysgwyr. Serch hynny, mae ychydig o diwtoriaid sydd wedi eu lleoli ymhell o'r ganolfan yn ei chael hi yn anodd cael gafael ar adnoddau dysgu fel tapiau a chryno ddisgiau i'w defnyddio yn eu dosbarthiadau.

Mae staff a rheolwyr y ganolfan yn rheoli ei chyllideb yn effeithiol. Mae'r ganolfan wedi aros o fewn ei chyllideb ac yn cadw llygad manwl ar gyflogau staff a hyfywedd cyrsiau. Rheolir adnoddau addysgu a rhent ar gyfer lleoliadau yn briodol i sicrhau'r gallu i ddarparu cyrsiau mewn ardaloedd difreintiedig.

Mae deilliannau'n dda ac mae'r ganolfan yn gwneud defnydd priodol o'i chyllid. Mae'n cynnig gwerth da am arian.

## Atodiad 1

**Boddhad dysgwyr**

Derbyniwyd 202 o ymatebion cadarnhaol iawn i'r holiaduron gan ddysgwyr:

Mae pob un yn cytuno neu'n cytuno'n gryf:

- y rhoddwyd gwybodaeth dda iddynt gan y darparwr pan oeddent yn dewis eu rhaglen ddysgu;
- eu bod yn cael cymorth personol da gan eu tiwtoriaid, hyfforddwyr neu aseswyr;
- eu bod yn teimlo'n ddiogel ac yn rhydd rhag aflonyddu;
- eu bod yn mwynhau dysgu;
- eu bod yn gallu cael gafael ar ddigon o lyfrau ac offer;
- bod y staff yn eu helpu yn ystod wythnosau cyntaf eu rhaglen ddysgu;
- bod y staff yn eu helpu i ddysgu a gwneud cynnydd;
- bod y staff yn rhoi cyfleoedd a chymorth dysgu iddynt yn y Gymraeg a/neu yn Saesneg, yn ôl eu dewis;
- bod y staff yn rhoi adborth defnyddiol iddynt ar sut i wella eu gwaith;
- bod y staff yn dangos parch tuag at bob dysgwr ac yn gwrando ar eu barn a'u pryderon;
- bod y staff yn helpu iddynt ddeall a pharchu pobl o gefndiroedd gwahanol;
- byddent yn argymell y darparwr dysgu hwn i bobl eraill; a
- bod eu dysgu yn eu helpu i gyflawni eu hamcanion.

Mae bron pob un yn nodi bod y staff yn:

- gweithredu yn unol â barn dysgwyr;
- dangos parch ac yn cynorthwyo ei gilydd yn dda;
- defnyddio deunyddiau dysgu o ansawdd da; ac yn
- helpu i mi ddeall a pharchu pobl o gefndiroedd gwahanol.

Mae'r rhan fwyaf yn nodi:

- bod mathau effeithiol eraill o gymorth ar gael iddynt;
- y rhoddwyd cyngor da iddynt am beth y gallent ei wneud pan fyddant wedi gorffen fy rhaglen ddysgu; a
- bod cymryd rhan yn y dysgu hwn wedi helpu iddynt wella eu medrau bywyd.

## Atodiad 2

Gwelwyd twf cyson mewn ymrestriadau ar gyrsiau Uwch a Hyfedredd dros y pum mlynedd ddiwethaf. Mae patrwm ymrestriadau ar gyfer cyrsiau Sylfaen ychydig yn anwastad ond gwelwyd cynnydd mewn tair o'r pum mlynedd ddiwethaf a bu cynnydd bychan yn yr ymrestriadau yn 2012-2013. Gwelwyd twf cyson o ymrestriadau ar gyrsiau Canolradd mewn dwy o'r pum mlynedd ddiwethaf, ond bu gostyngiad yn y blynyddoedd diweddar. Mae nifer ymrestriadau ar gyrsiau Mynediad wedi gostwng yn gyson dos y pedair blynedd ddiwethaf, er gwelir cynnydd bach yn 2012-2013.

Mae cyfraddau cwblhau dros y pedair blynedd ddiwethaf yn dangos cynnydd parhaus ar bob un o'r prif lefelau ac ar draws pob un o gyrsiau'r ganolfan. Bu cynnydd graddol yng nghyfraddau cwblhau cyrsiau Mynediad rhwng 2008-2009 i 2009-2010, ond ni welwyd unrhyw gynnydd rhwng 2010-2011 a 2011-2012. Mae cyfraddau cwblhau cyrsiau Sylfaen dangos yr un tueddiad, sef cynnydd cyson dros bedair blynedd, ond dim cynnydd rhwng 2010-2011 a 2011-2012. Bu cynnydd cyson yng nghyfraddau cwblhau cyrsiau Canolradd dros y pedair blynedd diwethaf. Mae cyfraddau cwblhau Uwch a Hyfedredd wedi codi'n flynyddol ac yn rhagorol ar y lefelau hyn.

Mae data'r ganolfan yn dangos nad oes unrhyw wahaniaeth arwyddocaol rhwng perfformiad dynion a gwragedd. Mae'r cyfraddau cwblhau hefyd yn debyg iawn. Mae cyrhaeddiad llawn 5% yn uwch ymhlith dynion, ond mae nifer y dynion sydd yn gadael heb unrhyw gredydau hefyd yn uwch.

Mae astudiaeth y ganolfan o berfformiad dysgwyr ar gyrsiau achrededig yn ôl oedran yn dangos mai'r garfan sydd yn cyflawni orau yw'r rhai sydd dros 60 oed. Mae'r gyfradd cwblhau grŵp hwn 6% yn uwch nag unrhyw garfan arall ac mae cyrhaeddiad llawn 5% yn fwy nag unrhyw garfan arall. Y garfan sy'n perfformio isaf yw'r dysgwyr sydd o dan 30 oed, yn 7% yn is nag unrhyw garfan arall. Y garfan hon yw'r garfan fwyaf o ran niferoedd dysgwyr yn gadael heb unrhyw gredyd o gwbl, sef 7%.

Mae dadansoddiad y ganolfan o berfformiad y dysgwyr hynny sydd yn talu ffi ostyngol i fynychu'r cwrs yn dangos bod ychydig o wahaniaeth rhwng perfformiad y dysgwyr hynny sy'n talu'r ffi lawn a'r rhai hynny sy'n talu'r ffi ostyngol. At ei gilydd mae dysgwyr hynny sy'n talu'r ffi ostyngol yn cyflawni'n 6% yn is o safbwynt cwblhau, 6% yn is o ran cyrhaeddiad llawn, ac mae 4% yn fwy o'r dysgwyr hyn yn gadael heb ennill unrhyw gredydau.

Mae perfformiad dysgwyr canolfan Morgannwg mewn arholiadau yn gyffredinol ar yr un lefel â gweddill Cymru. Gwelir cynnydd yn niferoedd dysgwyr sy'n sefyll arholiadau, o 225 yn 2007 i 268 yn 2012. Ar lefel Mynediad, roedd ymgeiswyr Morgannwg 6% yn uwch na'r meincnod cenedlaethol yn Ionawr 2012 ac ar yr yn lefel â gweddill Cymru yn Haf 2012. Mae ymgeiswyr Morgannwg yn perfformio ar yr un lefel â gweddill Cymru ar lefel Sylfaen yn 2012 a gwelir cynnydd sylweddol er 2011. Ceir patrwm tebyg ar lefelau Canolradd ac Uwch.

## Atodiad 3

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Ann Jones | Arolygydd Cofnodol |
| Iolo Dafydd | Arolygydd Tîm |
| Huw Collins | Arolygydd Tîm |
| Liam Kealy | Arolygydd Tîm |
| Eleri Wyn Williams | Arolygydd Cymheiriaid |
| Geraint Wilson-Price | Arolygydd Cymheiriaid |
| Cefin Campbell | Arolygydd Ychwanegol |
| Helen Prosser | Enwebai'r Darparwr |